## THE WINNING POEM.

### Wyr Ieuainc Cymru !

(Alaw—" Rhyfelgyrch Capten Morgan.")

Wyr ieuainc Cymru ! Clywch yr alwad gref
Corn y gad sydd heddyw'n alwad nef.
Geilw'ch Cadfridog, geilw'n iaith ei wlad,
Geilw'ch dewr gymrodyr draw o'r gad.

Cytgan—Fechgyn Cymru, wele daeth " y Dydd " !
Ewch dan faner Cymru dros Ewrop rydd.

Clywch ar y bryniau alwad megis cynt
Llef fel llef Llywelyn gwyd y gwynt.
Ar arch eich Owen, codwch fel un gwr ;
Oni chlywch drwy'r glynnoedd waedd Glyn Dwr !
Fechgyn Cymru, etc.

Draw dros y culfor, gwelwch Felgium brudd
Treth y gelyn trythyll arni sydd ;
Rhag cyfodi o Brydain lef a hyllt y nen,
Brwydrwch dros y wyryf Ynys Wen.
Fechgyn Cymru, etc.

Cerddodd myrddiynau gwirfodd dros eu gwlad ;
Utgorn aur eu rhyddid oedd corn cad.
Feibion gwroniaid pob anfarwol fri,
Ai yn nydd y gorfod y cerddwch chwi ?
Fechgyn Cymru, etc.

Hil aberth oesoedd . Dros y breintiau mawr
Aberth sydd i chwithau—wele'ch awr
Clywch alwad Rhyddid a chyfiawnder glan
Parod f'och i'ch puro'n awr trwy dan !
Fechgyn Cymru, etc.

Feibion yr henwlad fechan ddewr a fu
Dan lif cyflafan, ddyddiau lu !
Dydd cad cenhedloedd bychain Ewrop yw
Clywch alwad Belgium—Serfia—Duw !
Fechgyn Cymru, etc.

Gwedi cadw gwiwdeb Cymru, cyn y gad,
Ewch dan faner purdeb glwys eich gwlad ;
Rhoddwch i ormes anllad farwol glwy,
Fel na welo Ewrop ryfel mwy.
Fechgyn Cymru, wele daeth " y Dydd "
Ewch dan faner Cymru dros Ewrop rydd.

—Y GWYNGYLL.

## THE WINNER'S IDENTITY.

The writer of the successful poem based on General Owen Thomas's appeal to the young men of Wales is the Rev. J. Jenkins, M.A., " Gwili," of Ammanford, editor of " Seren Cymru." The verses were composed on the night of December 16th. "C. Times, 29/1/16

XC2032 447 80